'Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn lwyddo'

Ysgol Gymraeg Castell-nedd

Ein Gweledigaeth ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Erbyn heddiw y mae TGCh yn rhan annatod o'n bywydau beunyddiol. Teimlwn ein bod yn ddyletswydd arnom fel ysgol i sicrhau cefnogaeth holl rhan-ddeiliaid yr ysgol er mwyn grymuso **pob disgybl** â'r hyder a'r gallu i ddefnyddio TGCh i gyfoethogi'r amgylchedd dysgu ar draws y cwricwlwm tra ar yr un pryd yn eu harfogi â sgiliau gydol oes.

Cyflawni'r weledigaeth

- Sicrhau cynllunio strategol clir ar gyfer y pwnc.
- Cydnabod cyfraniad a chefnogaeth disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach wrth gyflawni'r weledigaeth.
- Sicrhau fod holl ddisgyblion a staff yr ysgol yn ddefnyddwyr annibynnol, hyderus a chymwys o TGCh.
- Cefnogi dulliau cynhwysol ac arloesol o addysgu a dysgu.
- Sicrhau Datblygiad Proffesiynol staff yn y pwnc er mwyn eu harfogi â'r arfau i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol a hyderus.
- Datblygu sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth a hyfedredd disgyblion trwy gyfrwng gwersi penodol a thrwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso ac atgyfnerthu eu sgiliau ar draws y cwricwlwm a thu hwnt.
- Darparu adnoddau digonol, addas a chyfredol a sicrhau fod yr adnoddau yn hygyrch i bawb.
- Diogelu pob disgybl a'u hamddiffyn rhag peryglon defnyddio'r rhyngrwyd.